

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion

o ran Oedolyn A

CWMPAS 1/2016

Dyddiad cymeradwyo'r adroddiad gan y Bwrdd: 11^{eg} Hydref 2018

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion

CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno Ynghylch:

CWMPAS 1/2016

Amlinell gryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Y Cyd-destun Cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno gan CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹ a chyfarwyddyd cysylltiedig, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 3 - Adolygiadau Ymarfer Oedolion.²

Caiff y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn eu cyrraedd dan adran 3.4 o'r canllawiau, sef:

Rhaid i Fwrdd gomisiynu Adolygiad Ymarfer Oedolion cryno pan **na** fu oedolyn a oedd mewn perygl, ar unrhyw adeg yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, yn rhywun y mae awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu i'w warchod rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol, ac sydd:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai fygwth bywyd; neu
- wedi dioddef amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd.

Diben adolygiad yw nodi pethau i'w dysgu ar gyfer arferion y dyfodol. Mae'n golygu bod ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gydag unigolyn a theulu. Bwriad yr adolygiad yw cynhyrchu dysgu proffesiynol a threfnyddol a hyrwyddo gwella arferion amddiffyn oedolion rhwng asiantaethau yn y dyfodol.

Caiff y meini prawf ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion eu pennu yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*³. Daeth y trefniadau i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno hwn yn [Helaethiad 1](#).

¹ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llesiant (Cymru) 2014

² Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion (LIC 2016)

³ Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015. Rheoliad 4 (3)

Amlinell gryno o'r amgylchiadau'n arwain at yr adolygiad

Cyfeirir at y gŵr bonheddig yng nghanol yr adolygiad hwn o hyn ymlaen fel Oedolyn A. Bu farw ym mis Ionawr 2012. Priodolodd archwiliad post-mortem ei farwolaeth i'r canlynol: Bronco-niwmonia, Dementia, Clefyd Fasgwlar Amgantol a Chlefyd Isgemia'r Galon.

Rhodddwyd Oedolyn A mewn Cartref Gofal Preswyl Dementia arbenigol allan o'r sir gan Awdurdod Lleol A. Roedd y cartref preswyl yn ardal Awdurdod Lleol B.

Comisiynwyd y lleoliad gan Awdurdod Lleol A. Nid oedd Oedolyn A yn hunangyllidol a gofal cymdeithasol Awdurdod A oedd yn gyfrifol ac atebol am reoli ei gynllun gofal.

Derbyniwyd Oedolyn A i'r ysbyty ym mis Ionawr 2012 gyda hanes 3 diwrnod o ddiffyg hylif, posibilrwydd haint y frest a llid yr isgroen ar ei goes dde. Pan dderbyniwyd i'r ysbyty cafwyd ei fod yn ddadhydredig, yn ddryslyd ac yn ffwndrus. Cafwyd bod ganddo 6 o friwiau pwysau, gan gynnwys gradd 3 ar y ddwy sawdl a chlwyf agored necrotig gradd 4 ar ei sacrw. Roedd ganddo hefyd gochni i'w gaflau a'i geilliau.

Pan dderbyniwyd ef i'r ysbyty cafodd wrthfotigau mewnwythiennol ac fe'i gwelwyd gan y Nyrsys Hyfywedd Meinwe. Fodd bynnag, dirywiodd a datblygodd bronco-niwmonia. Yn dilyn ei dderbyn i'r ysbyty, gwnaed cyfeireb Amddiffyn Oedolyn Agored i Niwed (POVA). Ni arweiniodd arfarniad dechreuol o'r achos gan yr Heddlu at achos troseddol. Daeth yr ymchwiliad POVA i gasgliad bod Oedolyn A, yn ôl pob tebyg, wedi dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i esgeulustod.

Trist yw dweud y bu farw Oedolyn A 4 diwrnod yn dilyn ei dderbyn i'r ysbyty.

Methodoleg

- Cynullwyd Panel Adolygiad Ymarfer Oedolion gyda Chadeirydd.
- Penodwyd Adolygydd Annibynnol.
- Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl (Helaethiad 1).
- Datblygodd pob asiantaeth linell amser a chyfunwyd y rhain yn llinell amser gyfansawdd.
- Cynhyrnodd pob gwasanaeth grynoded / dadansoddiad.
- Cyfarfu'r Adolygydd â theulu Oedolyn A i rannu cylch gwaith yr adolygiad a'i ddiben gyda nhw.
- Rhannodd teulu Oedolyn A eu stori emosiynol ynghylch eu taith a bywyd eu tad gyda chyfranogwyr yr achlysur dysgu.
- Cysylltwyd â'r Cartref Gofal Preswyl i gael copïau o gofnodion y cartref gofal. Ar ôl amser maith, rhodddwyd caniatâd i'r panel adolygu gael y cofnodion yng ngofal Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gynt Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).
- Cynhyrwyd dadansoddiad o gofnodion y cartref gofal gan weithiwr iechyd proffesiynol annibynnol.
- Cynhaliwyd achlysur dysgu i drafod y gwersi a ddysgwyd cyn dyddiad y farwolaeth.

Y cyfnod a adolygwyd a pham

Ystyriodd yr adolygiad y cyfnod o fis Ionawr 2011 ymlaen hyd at amser marwolaeth Oedolyn A ym mis Ionawr 2012.

Hanes Teuluol a Chyd-destun

Gŵr bonheddig yn ei 70au oedd Oedolyn A. Roedd yn Beiriannydd Trydanol wedi ymddeol a bu'n briod a chanddo 2 o blant a fagodd ei hun. Cymraeg oedd ei iaith gyntaf.

Roedd Oedolyn A wedi cael diagnosis o glefyd Alzheimer ac fe'i rhoddwyd mewn Cartref Gofal Preswyl yn dilyn derbyniad i'r ysbyty yn 2009. Yn anffodus, ym mis Gorffennaf 2010, ni allai'r cartref gofal hwn ddiwallu ei anghenion gofal ac, yn dilyn pryderon y teulu, gofynnodd y Gweithiwr Cymdeithasol am adolygiad iechyd meddwl brys ac fe neilltuwyd Nyrs Seiciatrig Gymunedol (CPN) i Oedolyn A. Trosglwyddwyd Oedolyn A i gartref gofal arall o fewn pythefnos.

Adolygwyd y lleoliad newydd yn y cartref gofal preswyl a'i gynllun gofal personol ym mis Hydref 2010 gyda mab a merch Oedolyn A, Nyrs-asesydd, y Gweithiwr Cymdeithasol, CPN a rheolwr y cartref gofal ac fe gytunwyd ei fod yn diwallu ei anghenion. Hysbyswyd bod y briw pwysau ar ei sacrw a welwyd pan gyrhaeddodd y cartref gofal wedi gwella.

Darganfu'r asesiad bryd hynny nad oedd gan Oedolyn A unrhyw anghenion nyrsio ac y byddai lleoliad preswyl henoed bregus eu meddwl yn diwallu ei anghenion. Trefnwyd ei adolygiad nesaf ar gyfer mis Hydref 2011.

Roedd Oedolyn A yn hysbys i'r Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl.

Ymarfer a Dysgu Trefnyddol

Themâu a dysgu allweddol yn deillio o'r adolygiad.

Thema allweddol 1. Cofnodi a Dogfennaeth yn y Cartref Gofal.

- Adolygodd y ddogfennaeth o'r cartref gofal gan weithiwr iechedd proffesiynol annibynnol a ddarganfu ei bod yn anodd deall yn union bryd y datblygodd y briw pwysau a pha mor hir y bu yno.
- Roedd amryw gofnodion yn nogfennau'r Meddyg Teulu a awgrymai y dylai'r Ceirododydd weld Oedolyn A ond nid oedd tystiolaeth yn ei gofnodion yn y cartref gofal y gwnaed hyn.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion y cartref gofal yr ymgynghorwyd â'r Nyrs Ardal neu'r Meddyg Teulu mewn cysylltiad â briwiau pwysau Oedolyn A.
- Roedd dogfennau'r cartref gofal a dderbyniwyd drwy AGC yn wael iawn ac mae anghysondebau yn y llinellau amser.
- Mae'n ymddangos bod niwed briw pwysau wedi bod yn amlwg o leiaf yr wythnos cyn ei dderbyniad i'r ysbyty ond nad oedd sôn am glustog lleddfu pwysau hyd at 5 diwrnod yn ddiweddarach a dim dogfennau i awgrymu fod ganddo fatres lleddfu pwysau, newidiadau sefyllfa rheolaidd neu gyfeireb i'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal i gael cyngor.
- Er y dogfennwyd y ddwy godwm, nid oedd unrhyw gyfeiriad at sut y digwyddodd y codymau, pa mor hir yr oedd wedi bod ar y llawr, pa arwyneb y bu'n gorwedd arno neu a edrychwyd ar y croen am farciau neu gleisio.

Thema allweddol 2. Eglurhau Swyddogaethau a Chyfrifoldebau / Terfynau Proffesiynol.

- Er nad oedd staff y Cartref Gofal yn bresennol yn yr Achlysur Dysgu daeth i'r amlwg yn ystod yr Achlysur Dysgu ei bod yn ymddangos bod staff y cartref gofal yn rhoi gofal nyrsio.
- Roedd terfynau aneglur rhwng staff y cartref gofal ac mae'n ymddangos nad ymgynghorwyd â'r nyrsys ardal ynglŷn ag iechedd Oedolyn A na gofalu am ei fannau pwysau er y crybwyllwyd yn y cynllun gofal y dylid ymgynghori â'r meddyg teulu neu'n nyrs ardal pe bai'n datblygu niwed man pwysau.

Thema allweddol 3. Cyfathrebu.

- Mae'n ymddangos y collwyd cyfle mewn cysylltiad â rheoli Oedolyn A yn y cartref gofal, lle gallai fod wedi cael ei atgyfeirio at CPN i reoli rhai o'r anawsterau a gawsant oherwydd ei ymddygiadau, gan olygu bod ei ofal wedi dioddef.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod y meddyg teulu neu'r nyrs ardal yn ymwybodol fod Oedolyn A yn datblygu briwiau pwysau. Byddai hyn wedi rhoi cyfle i wneud asesiad cynhwysfawr a chynllun rheoli a fyddai wedi rhoi'r gofal nyrsio angenrheidiol i Oedolyn A. Gallai hyn fod wedi atal dirywiad pellach yn ei friwiau pwysau.
- Roedd yn ymddangos fod diffyg cyfathrebu rhwng staff y cartref gofal a'r teulu, yn enwedig tuag at y diwedd pan oedd yn mynd yn fwy bregus. Ni ddywedwyd wrth y

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS 1/2016

teulu am ymweliadau â'r clinig cof a byddent wedi hoffi ymwneud mwy â'i apwyntiadau.

- Rhannodd teulu Oedolyn A eu stori gyda'r Achlysur Dysgu ac mae'n ymddangos eu bod yn teimlo'n ddiymadferth yn ystod y broses ac, er iddynt ddechrau cael pryderon ynghylch ei ofal, ymddangosai nad oedd y rhain yn cael sylw staff y cartref gofal.
- Nid oedd y teulu'n ymwybodol o'r dirywiad yn ei iechyd cyn ei dderbyn i'r ysbyty.

Thema allweddol 4. Urddas a Pharch.

- Nododd y teulu bod Oedolyn A yn gwisgo dillad preswylwyr eraill ar eu hymweliadau, oedd yn annifyr iddynt. Yn dilyn marwolaeth Oedolyn A, aethant i ymweld â'r cartref gofal i godi ei eiddo a chawsant eiddo pobl eraill yn y blychau.
- Roedd Oedolyn A yn ymateb yn well i ofalwyr gwryw ac ni chafodd hyn ei adlewyrchu wrth reoli ei ofal. Golygai hyn bod staff y cartref gofal yn aml yn ei chael yn anodd rheoli ei ofal personol.
- Wrth ymweld â'u tad, oedd yn gwlychu ac yn baeddu, nododd y teulu hefyd ei fod yn eistedd mewn 'pad gwlyb' ac nad oedd hylifau ar gael iddo bob amser.

Thema allweddol 5. Y Broses Asesu.

- Roedd adolygiad Oedolyn A gan yr Awdurdod Lleol yn hwyr ac efallai, gydag ôl-ddoethineb, y byddai blaenoriaethu'r adolygiadau allan o'r sir wedi tynnu sylw at anghenion cynyddol Oedolyn A.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth o ystyried galluedd meddyliol Oedolyn A neu gwblhau Asesiad Budd Pennaf o ran defnyddio adwy baban wrth ddrws ystafell wely Oedolyn A. Byddai proses Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid / Asesiad Budd Pennaf wedi cynnwys y teulu yn y broses a thynnu sylw at anghenion cynyddol Mr A.
- Roedd yn ymddangos bod y cynllun gofal yn briodol i raddau helaeth cyn codwm gyntaf Oedolyn A a datblygiad dilynol y briw pwysau i'w sacrm. Dyna ba bryd y byddai angen rhoi sylw i fesurau atal briwiau pwysau, yn arbennig offer lliniaru pwysau, newidiadau sefyllfa rheolaidd, cynllun triniaeth glinigol ac asesu poen. Dylai fod nifer o siartiau corff wedi'u diweddarau a'u hadolygu yn ystod y cyfnod hwn a chyfeireb at y Nyrsys Ardal am gyngor neu gymorth clinigol.

Thema allweddol 6. Proses Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA).

- Dechreuwyd gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) ar unwaith pan dderbyniwyd Oedolyn A i'r ysbyty a chynhaliwyd cyfarfod strategaeth. Yn anffodus, bu Oedolyn A farw ychydig ddyddiau'n ddiweddarach. Dechreuwyd y broses ddiogelu'n brydlon gan staff yr ysbyty a dechreuodd yr ymchwiliad POVA dilynol.
- Roedd y teulu'n siomedig gyda'r broses a chanlyniad yr Ymchwiliad POVA.

Pwyntiau i'w nodi

Nododd y panel a mynychwyr yr Achlysur Dysgu bethau i'w dysgu mewn cysylltiad â'r broses, er ei fod oddi allan i amserlen yr Adolygiad Ymarfer Oedolion.

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS 1/2016

- Hysbysodd dadansoddiad yr Awdurdod Lleol y panel ynghylch yr angen i gael rhagor o wybodaeth am niwed pwysau a'r angen i ryddhau staff gweithredol ar gyfer archwiliadau.
- Tynnodd y broses sylw hefyd at yr angen i Gomisiynwyr fod â 'chymal Diogelu' yn y Fframwaith Cartrefi. Byddai hyn yn sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynwyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Nododd dadansoddiad yr Heddlu y gallai'r teulu fod wedi cael gwell cymorth trwy neilltuo Swyddog Cyswllt Teuluol yn ystod y broses. Nid oes cwrs hyfforddiant Diogelu / Amddiffyn Oedolion penodol chwaith ar gyfer yr Heddlu a, gyda Diogelu Oedolion ar yr un sail statudol ag amddiffyn plant, dyma faes sydd angen sylw. Newidiodd ymarfer ers hynny yn Heddlu Dyfed Powys gyda'r canolbwynt yn fwy ar fod yn agored i niwed ac asesiad gan ddefnyddio cynllun THRIVE (Bygythiad, Niwed, Perygl, Ymchwiliad, Agored i Niwed, Ymgysylltu) e.e. y fesurau diogelu sydd gennych.
- Dangosodd dadansoddiad AGC y dylai gwaith gorfodi ar y Cartref Gofal Preswyl fod wedi dechrau cyn gynted ag y clywsant am yr achos. Caiff AGGCC glywed ar unwaith os bydd cyfeireb yn cynnwys sefydliad rheoledig a chânt eu gwahodd fel mater o drefn i gyfarfodydd strategaeth.

Arferion Effeithiol

Nodwyd llawer o enghreifftiau o arferion effeithiol yng ngofal Oedolyn A.

- Roedd cyfathrebu effeithiol rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'r teulu, a wrandawodd ar eu pryderon pan oedd Oedolyn A yn ei Gartref Gofal Preswyl cyntaf a dechreuodd asesiad iechyd meddwl a newid lleoliad.
- Gwnaed penderfyniadau amlasiantaethol yn adolygiad Oedolyn A yn y lleoliad gyda'r teulu, y CPN, y Nyrs-asesydd, y Gweithiwr Cymdeithasol a Rheolwr y Cartref Gofal Preswyl.
- Dygodd y CPN adolygiad Oedolyn A ymlaen yn y clinig cof pan fynegodd staff y Cartref Gofal Preswyl bryderon ym mis Medi 2011 ynghylch rheoli Oedolyn A.
- Nodwyd bod amrywiaeth o wahanol weithwyr iechyd proffesiynol yn ymwneud â gofal Oedolyn A ac yn ymatebol i'w anghenion. Fodd bynnag, roeddent yn ddibynnol ar y gofalwyr i hysbysu unrhyw bryderon ynghylch ei iechyd.
- Dechreuwyd cyfeireb staff iechyd at broses POVA pan dderbyniwyd ef i'r ysbyty.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo dysgu o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i aelod-asiantaethau a disgwyliai ganlyniadau gwella:

Nodwyd yn ystod yr adolygiad bod ymarfer wedi newid yn sylweddol ers 2012.

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi newid arferion yn sylweddol mewn cysylltiad â Rhannau 3 a 4 gyda phwyslais ar ba 'ofal a chymorth' sydd eu hangen ar unigolyn i gyflawni'r canlyniadau personol sydd 'o bwys iddynt', - gyda chynlluniau 'gofal a chymorth'. Y dyletswyddau troswaol yn y Ddeddf yw hyrwyddo ffyniant unigolion ac ystyried eu diwylliant, urddas a barn, dymuniadau a theimladau. Creodd hawl i asesiad ar gyfer oedolion a'u gofalgwr pan fo'n ymddangos y gall fod arnynt angen 'gofal a chymorth'. Mae hyn yn golygu bod yr ymarferydd yn ystyried a oes angen cymorth eiriol.
- Fe fu newidiadau i'r trothwyon cysylltiedig â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a Deddf Galluedd Meddyliol. Gwnaed dyfarniad pwysig yn 2014 yn achos P yn erbyn Cyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer bod pobl analluog gyda goruchwyliaeth a rheolaeth barhaol arnynt trwy benderfyniad y wladwriaeth heb allu dewis gadael eu sefydliad yn colli eu rhyddid. Felly, byddai Asesiad Budd Pennaf yn cael ei wneud bellach ar breswylwyr lle bo unrhyw golli rhyddid a byddai'r teulu wedi bod yn rhan o'r broses, a'u barn wedi cael ei hystyried. Mae proses trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn galluogi gweld defnyddiwr y gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn gan Weithiwr Cymdeithasol ac Asesydd Budd Gorau.
- Yn ystod yr achlysur dysgu, nododd staff sy'n gweithio ochr yn ochr â'r cartref gofal ar hyn o bryd newidiadau cadarnhaol sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf dan y rheolwr newydd. Roedd hyn yn cynnwys gweithio amlasiantaethol effeithiol, cyfarfodydd misol gyda'r Nyrsys Ardal a chynnwys fferylllydd lleol wrth ddarparu moddion i breswylwyr.
- Mae Comisiynwyr yr Awdurdod Lleol wedi gwneud adolygiad o'r Contractau Cartrefi gan ychwanegu cymal mewn cysylltiad â 'Diogelu'.

Mae hyn yn cynnwys:

Hyfforddiant – sicrhau bod staff yn mynychu hyfforddiant blynyddol mewn cysylltiad ag ymwybyddiaeth o Amddiffyn Oedolion, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Polisiau a Gweithdrefnau – mae angen i ddarparwr gwasanaethau wneud ymrwymiad eglur i Bolisiau a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a chanllawiau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol dilynol, ac unrhyw ddeddfwriaeth sy'n disodli'r rhain. Dylent hefyd ddarparu eu polisi a gweithdrefnau trefnyddol eu hunain yn unol â'r trefnau hyn.

Proses – Mae angen i ddarparwr gwasanaethau hysbysu ar unwaith unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau i Dîm Diogelu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu a/neu AGGCC yn unol â Pholisiau a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Mae angen iddynt hefyd gydweithredu'n llawn â chyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Oedolion a

phrosesau Ymchwilio, gydag unrhyw ddogfennaeth y gofynnwyd amdani, a gweithredu ar yr argymhellion sy'n deillio o'r prosesau hyn.

- Mae arferion hefyd wedi symud ymlaen mewn cysylltiad â niwed pwysau gyda Chanllawiau Cymru Gyfan ar Hysbysu ac Ymchwilio Briwiau Pwysau (2014). Ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 caiff holl friwiau pwysau y gellir eu hosgoi eu hysbysu i Dimau Diogelu'r Awdurdod Lleol. Caiff briwiau pwysau gradd 3 neu uwch y gellir eu hosgoi eu hysbysu hefyd i Lywodraeth Cymru.
- Social Care Wales (2017) has commissioned and produced Good Work: Dementia learning and Development Framework. This provides the overarching framework to drive change in workforce development, and support what matters most to people with Dementia regarding their care and support.
- Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi sefydlu rheolydd newydd i'r gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod holl weithwyr cartrefi gofal yn gorfod cofrestru gyda rheolydd y gweithlu o 2020 ymlaen. Mae hwn yn newid arwyddocaol ar y cyd â'r hyfforddiant gorfodol y bydd cofrestru'n ei ofyn ac fe all sbarduno safonau mewn cartrefi gofal. Crëwyd Gofal Cymdeithasol Cymru gyda'r nod o sicrhau y gall pobl yng Nghymru alw ar weithlu gofal cymdeithasol o safon sy'n darparu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion yn llawn.
- Mae Cymwysterau Cymru wedi datblygu Fframwaith Cynefino Gofal Cymdeithasol newydd sy'n ymgorffori hyfforddiant mewn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl sy'n byw gyda Dementia.
- Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGGCC gynt) wedi cyflwyno cyfundrefn archwilio newydd sy'n canolbwyntio ar hawliau ar gyfer Awdurdodau Lleol. Maent wedi cynhyrchu canllawiau newydd ynghylch eu hymroddiad i hyrwyddo a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

Argymhellion

Y meysydd gwelliant ar gyfer asiantaethau, fel y rhestrir isod, yw'r rhai a nodwyd drwy'r dadansoddiadau a thrwy'r Achlysur Dysgu.


Oherwydd na chyfranogodd staff a rheolwr y Cartref Gofal Preswyl yn yr adolygiad, caiff yr argymhellion a wnaed eu hystyried yn ofynion hanfodol i holl gartrefi gofal wrth sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael y safon uchel o ofal sydd ganddynt hawl iddi.

1. Mae angen i staff cartrefi gofal gael hyfforddiant mewn cysylltiad â chadw cofnodion.
2. Rhaid i staff cartrefi gofal ddilyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'u cynefino a dylai holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal hyfforddiant dementia pellach yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd.
3. Mae angen i staff cartrefi gofal sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant sylfaenol ar ofalu am fannau pwysau a'r prosesau cofnodi ac atgyfeirio.
4. Mae angen i staff cartrefi gofal ddeall sut i leihau'r peryglon cysylltiedig â chodymau trwy hyfforddiant, pecynnau adnoddau codymau ac asesiadau risg codymau.
5. Gweithredu 'Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru (2016)' yn rhanbarthol.

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS 1/2016

6. Sefydlu Cymunedau Ystyriol o Dementia'n rhanbarthol – mae cartrefi gofal yn rhan o'r gymuned.
7. Mae angen i gomisiynwyr gofal a chymorth weithio gyda phobl hŷn a'u teuluoedd i sicrhau bod cartrefi gofal yn gallu diwallu anghenion unigol a bod modd herio darparwyr ynghylch safonau gofal annerbyniol.
8. Mae angen i gomisiynwyr ddeall anghenion pobl sy'n byw gyda dementia ac adlewyrchu hynny yn eu comisiynu. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, wedi datblygu cymhwyster safon Diploma ar gyfer Comisiynu, Caffael a Chontractio sy'n cynnwys 'deall proses a phrofiad Dementia' a 'deall colled synhwyrdd'.
9. Mae angen i'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ddilyn hyfforddiant ar y cyd ar Ymchwiliadau Amddiffyn Oedolion er mwyn deall swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd.

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS 1/2016

Datganiad yr Adolygydd / Adolygwyr			
Adolygydd 1	Pauline Galluccio	Adolygydd 2 <i>(fel y bo'n briodol)</i>	
Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>		Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>	
Gwnaf y datganiad canlynol fy mod cyn fy ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:		Gwnaf y datganiad canlynol fy mod cyn fy ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:	
<ul style="list-style-type: none"> • Heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r oedolyn na'r teulu nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Heb unrhyw reolaeth atebol uniongyrchol dros yr ymarferydd / ymarferwyr dan sylw. • Yn dal y cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i wneud yr adolygiad. • Y gwnaed yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drwyadl wrth ddadansoddi a chloriannu'r materion a bennwyd yn y Cylch Gorchwyl. 		<ul style="list-style-type: none"> • Heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r oedolyn na'r teulu nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Heb unrhyw reolaeth atebol uniongyrchol dros yr ymarferydd / ymarferwyr dan sylw. • Yn dal y cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant cydnabyddedig priodol i wneud yr adolygiad. • Y gwnaed yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drwyadl wrth ddadansoddi a chloriannu'r materion a bennwyd yn y Cylch Gorchwyl. 	
Adolygydd 1 <i>P Galluccio</i>		Adolygydd 2	
<i>(Llofnod)</i>	 <i>(Llofnod)</i>	
Enw	Pauline Galluccio	Enw <i>(Printiwch)</i>
Dyddiad	11/10/18	Dyddiad
 Cadeirydd y Panel Adolygu			
Enw	Donna Pritchard		
Dyddiad	11/10/18		

Proses Adolygiad Ymarfer Oedolion

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS 1/2016

Hysbysodd Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru (CWMPAS) Lywodraeth Cymru yn 2016 ei fod yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno o ran Oedolyn A.

Sefydlwyd Panel Adolygu'n unol â'r canllawiau ac enwyd Adolygydd Annibynnol.

Adolygydd Allanol: Pauline Galluccio, Adolygydd Annibynnol.

Cadeirydd: Donna Pritchard – Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl, Arweinydd Strategol dros Ddiogelu a Chymhwyster, Ceredigion (Cadeirydd).

Ffurfiwyd y Panel Adolygu o gynrychiolwyr y gwasanaethau canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Gwasanaethau Oedolion Awdurdod Lleol Ceredigion.
- Gwasanaethau Oedolion Awdurdod Lleol Caerfyrddin.
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGGCC gynt).
- Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- Heddlu Dyfed Powys.

Proses yr Adolygiad

- Cyfarfu'r panel yn rheolaidd o fis Rhagfyr 2016 ymlaen.
- Darparodd pob asiantaeth unigol linell amser o ddigwyddiadau arwyddocaol ynghyd â chrynodeb a dadansoddiad o'u cyfranogiad. Trafodwyd y rhain gan y Panel Adolygiad Ymarfer Oedolion ac fe'u defnyddiwyd ar gyfer yr Achlysur Dysgu.
- Roedd oediadau sylweddol ym mhroses yr Adolygiad Ymarfer Oedolion oherwydd ymchwiliad yr Heddlu, achos cyfreithiol a chael mynediad at gofnodion y cartref gofal.
- Cadwodd yr Adolygydd gysylltiad â mab a merch Oedolyn A drwy gydol yr adolygiad.
- Cafodd cyfranogwyr yr achlysur dysgu ysgrif bortread o'u tad a'u profiadau o lywio drwy'r trefnau gofal ar y pryd gan fab a merch Oedolyn A.
- Cynhaliwyd yr achlysur dysgu er nad oedd gan fwyafrif y gweithwyr proffesiynol yn yr achlysur unrhyw wybodaeth flaenorol am Oedolyn A, oherwydd natur hanesyddol yr adolygiad hwn. O ganlyniad, ni allent ond defnyddio ôl-ddoethineb ac, felly, roedd llawer o gwestiynau heb eu hateb ynglŷn â'r gweithwyr proffesiynol a fu'n ymwneud â'i ofal.

Yr Achlysur Dysgu

Cynhaliwyd Achlysur Dysgu ym mis Gorffennaf 2018. Hwyluswyd gan yr Adolygydd Annibynnol a'i fynychu gan ymarferwyr o'r asiantaethau canlynol.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Oedolion Awdurdodau Lleol
- Arolygiaeth Gofal Cymru

Hysbysu aelodau'r teulu

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS 1/2016

Dywedwyd wrth aelodau perthnasol y teulu bod yr Adolygiad Ymarfer Oedolion yn cael ei gynnal a chynigiwyd cyfleoedd iddynt gyfarfod a/neu gyfrannu at yr adolygiad neu'r Achlysur Dysgu. Bu cysylltiad rhwng mab a merch Mr A a'r Adolygydd Annibynnol drwy gydol y broses a rhoesant stori bersonol o fywyd eu tad a'u profiadau o'i daith ef a'u taith hwythau drwy'r broses.

Gwrthododd y teulu gyfranogi: Na

At defnydd Llywodraeth Cymru'n unig

Dyddiad derbyn y wybodaeth:

..... (dyddiad)

Anfonwyd llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd:

.....(dyddiad)

Cylchredwyd i arolygiaethau / Arweinwyr Polisi perthnasol:

.....(dyddiad)

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGGCC			
Estyn			
AGIC			
AEM Heddlu			
AEM Profiannaeth			

Helaethiad 1 Cylch Gorchwyl Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno CWMPAS 1/2016

Bydd y materion craidd sydd i gael sylw yng nghylch gorchwyl yr adolygiad yn cynnwys:

- Archwilio gweithio rhwng asiantaethau a darparu gwasanaethau ar gyfer Oedolyn A trwy gylch gorchwyl diffiniedig.
- Ceisio cael cyfraniadau gan yr unigolyn / unigolion ac aelodau priodol o'r teulu at yr adolygiad a'u hysbysu o agweddau allweddol ar gynnydd.
- Nodi materion arbennig sydd angen rhagor o eglurhad.
- Llunio adroddiad i'w gyhoeddi a chynllun gweithredu.

Tasgau craidd

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chymau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau gwasanaethau penodol a'r Bwrdd.
- Archwilio gweithio rhwng asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r unigolyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau roedd penderfyniadau a chymau gweithredu'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ceisio cael aelodau priodol o'r teulu i gyfrannu at yr adolygiad a'u hysbysu o agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achos llys cyfochrog cysylltiedig â'r achos.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arwyddol:

- Bydd Cydgysylltydd y Bwrdd yn gyfrifol am gadw cysylltiadau â holl asiantaethau, teuluoedd a buddiannau eraill perthnasol.
- Bydd Cadeirydd y *Panel Adolygu* yn hysbysu Cadeirydd y Bwrdd ac is-grŵp y Bwrdd o newidiadau arwyddocaol yng nghwmpas yr adolygiad a bydd y cylch gorchwyl yn cael ei ddiweddarau o ganlyniad.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud holl ddatganiadau cyhoeddus, ac ymatebion i ddiddordeb y cyfryngau ynghylch yr adolygiad cyn cwblhau'r broses. Y disgwyl yw na fydd unrhyw ddatgeliad gwybodaeth i'r cyhoedd heblaw Adroddiad Terfynol y Bwrdd.
- Bydd y Bwrdd a'r *Panel Adolygu* yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar holl faterion perthnasol i'r adolygiad. Yn arbennig bydd hyn yn cynnwys cyngor ar y canlynol:
 - cylch gorchwyl;
 - datgeliad gwybodaeth.

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd neu adolygwyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â chanllawiau i adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol i

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS 1/2016

gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos dechreuol a nodi unrhyw gamau di-oed a gymrwyd eisoes.

- Cynhyrchu llinell amser gyfunedig, dadansoddiad dechreuol a damcaniaethau.
- Cynllunio achlysur dysgu ar gyfer ymarferwyr gyda'r adolygydd neu adolygwyr, i gynnwys enwi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cynorthwyo cyn ac ar ôl yr achlysur, a threfniadau ar gyfer ymateb.
- Cynllunio trefniadau cysylltu â'r unigolyn ac aelodau o'r teulu gyda'r adolygydd neu adolygwyr cyn yr achlysur.
- Derbyn ac ystyried drafft yr adroddiad adolygiad ymarfer oedolion i sicrhau y cyflawnwyd y cylch gorchwyl, y rhoddwyd sylw i'r damcaniaethau dechreuol a bod unrhyw ddysgu ychwanegol wedi cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a threfnu i'w cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cytuno.
- Gwneud trefniadau i ymateb i aelodau o'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad yn dilyn darfod yr adolygiad a chyn ei gyhoeddi.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Oedolion

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau i'r Bwrdd eu dysgu i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Y *Panel Adolygu* yn gorffen yr adroddiad a chynllun gweithredu.
- Y Bwrdd yn anfon at asiantaethau perthnasol am sylwadau olaf cyn terfynu a chyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan Is-grŵp yr Adolygiad, gan gynnwys sut y rhagwelir y bydd gwelliannau gwasanaeth yn cael eu nodi, eu harolygu a'u hadolygu.
- Trefnu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd.
- Cytuno ar ledaenu i asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud holl ddatganiadau cyhoeddus ac ymatebion i ddiddordeb y cyfryngau ynghylch yr adolygiad cyn cwblhau'r broses.

Rhannu Gwybodaeth a Chydgyfrinachedd

Rhaid eglurhau perchenogaeth holl wybodaeth a dogfennaeth er mwyn cael caniatâd priodol y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Ni all sefydliadau rannu dim ond gwybodaeth sy'n perthyn iddynt neu'n deillio ohonynt.

Dylid eglurhau a chytuno cyfrifoldeb dros ofyn am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys darparwyr annibynnol) gan y Panel, fel y bo'n briodol.

Bydd holl fynychwyr yn llofnodi datganiad cydgyfrinachedd (fel yr isod) ymhob cyfarfod o'r Panel i ailddatgan o fewn ba derfynau y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.

Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn cysylltiad ag adolygiad ymarfer oedolion, mae gan holl asiantaethau derfynau cydgyfrinachedd y cytunwyd arnynt. Mae'r broses hon yn parchu'r derfynau cydgyfrinachedd hynny ac mae'n cael ei chynnal dan y gyd-ddealltwriaeth ganlynl:

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion CWMPAS 1/2016

- Bod cyfarfod y Panel yn cael ei gynnull dan ganllawiau 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Y bydd datgelu gwybodaeth oddi allan i'r Panel y tu hwnt i'r hyn a gaiff ei gytuno yn y cyfarfod yn cael ei ystyried yn doriad o gydgyfrinachedd y gwrthrych ac yn doriad o gydgyfrinachedd yr asiantaethau dan sylw.
- Os teimlir bod caniatâd i ddatgelu'n hanfodol, y dylid gofyn am ganiatâd dechreuol Cadeirydd y Panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar egwyddor 'bod angen gwybod'.

Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb eithaf dros ddatgelu gwybodaeth o'r Panel Amlasiantaethol i rywun arall yn aros gyda Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a rhaid cyfeirio at Reolwr Busnes y Bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.